Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Pontrobert
**Canolfan y Gymuned**
**Pontrobert**
**Meifod**
**Powys**
**SY22 6JB**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/01/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Pontrobert ym mhentref Pontrobert, ger Meifod, yn awdurdod lleol Powys. Mae'n cyfarfod yn neuadd gymunedol y pentref. Mae'r lleoliad ar agor am dri bore'r wythnos. Mae gan y lleoliad dau aelod o staff llawn amser.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 15 o blant. Mae'n derbyn plant o ddwy i bedair oed. Ar adeg yr arolygiad, mynychodd naw o blant, pedwar ohonynt wedi eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig a'r lleiafrif yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd y arweinydd ei swydd ym mis Ebrill 2010. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Mawrth 2014 a chan Estyn ym mis Medi 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Cynllunio trwyadl o brofiadau dysgu
- Cwricwlwm diddorol, sy'n cefnogi'r holl blant
- Arferion addysgu ac asesu effeithiol
- Gofal diwyd o'r plant
- Ystod eang o adnoddau sydd ar gael
- Perthynas positif rhwng oedolion a phlant
- Parodrwydd y staff i gydweithredu'n effeithiol gydag asiantaethau allanol, sy'n cyfrannu'n bwrpasol i lwyddiant y lleoliad

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon y lleoliad ar gyfer gwella'n dda oherwydd:

- Darpariaeth effeithiol a chyfeiriad clir i waith y lleoliad gan yr arweinydd a'r staff
- Agweddau cadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant staff
- Arferion hunan arfarnu a chynlluniau gwella pwrpasol
- Defnydd effeithlon o linellau cymorth effeithiol
- Pwyllgor rheoli gweithredol a chefnogol

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod cyflwyniadau i dasgau yn cael eu hamseru'n effeithiol er mwyn cynnal diddordeb y plant

A2 Gwella'r ardaloedd garddio yn yr awyr agored

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n dda. Mae'r cynllunio yn bodloni athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n bwrpasol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y plant. Mae cyfleoedd diddorol ar gael i bob plentyn i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae amser gwerthfawr yn cael ei osod yn wythnosol i staff gyfarfod a chynllunio'r cwricwlwm. Mae'r paratoadau yma'n darparu'r plant â gweithgareddau defnyddiol a phwrpasol. Mae'r cwricwlwm hyblyg yn ysgogol, gydag adnoddau da ac yn gysylltiedig â diddordebau'r plant.

Mae'r cyfleoedd cadarnhaol yn cael eu cynnwys yng ngwaith dyddiol y lleoliad er mwyn i'r plant ddatblygu eu hunan hyder fel dysgwyr annibynnol. Er bod gweithgareddau penodol wedi'u cynllunio, mae'r plant yn rhydd i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hunain. Mae gweithgareddau heriol yn cael i'w darparu ar gyfer plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol o lythrennedd, rhifedd, datblygiad corfforol a chreadigrwydd. Gwneir hyn drwy weithgareddau diddorol wrth baentio, arbrofi gyda thywod a swigod a gyrru o gwmpas yn frochus ar wahanol fathau o deganau mawr. Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r plant yn y Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth y plant yn dda. Mae'r staff yn arwain y plant yn rheolaidd i ddefnyddio'r cyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) fel cyfrifiadur, llechen, tiliau a chyfrifianellau, sy'n herio unigolion yn synhwyrol. Mae plant yn cael llawer o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau heriol, sy'n cynnwys chwarae rôl yn y siop, arbrofi gyda glud a gliter a gwneud marciau gydag ysgrifbinnau, paent a phensiliau.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn llwyddiannus.  Er enghraifft, mae ymweliadau â'r siop leol a pharc y pentref yn ychwanegu diddordeb at y cwricwlwm, sy'n datblygu ac yn ymestyn profiadau'r plant yn effeithiol.  Mae ymwelwyr, sy'n cynnwys nyrsys deintyddol a swyddogion o sefydliadau bywyd gwyllt, yn effeithio ar brofiadau dysgu'r plant yn gadarnhaol.

Mae pwyslais addas yn cael ei roi ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi.  Mae llawer o gyfleoedd i blant ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau eraill.  Er enghraifft, mae plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwahanol fwydydd ac offerynnau cerdd o bob cwr o'r byd.  Maent yn dathlu’r flwyddyn newydd Tsieineaidd, Diwali ac astudio straeon o Affrica, sy'n datblygu’n dda eu dealltwriaeth o'r byd ehangach a’u hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu:  Da**

Mae gan y staff wybodaeth ymarferol gadarn o ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen.  Mae perthynas gadarnhaol iawn rhwng yr holl staff a'r plant.  Mae gan staff rôl weithredol wrth gynllunio’r cwricwlwm ac mae’r defnydd gorau'n cael ei wneud o'u harbenigedd.  Mae'r holl staff yn addysgu’n bwrpasol, fodd bynnag, ar adegau, nid yw’r cyflwyniadau i dasgau ac esboniadau o weithgareddau yn cael eu hamseru’n effeithiol er mwyn cynnal diddordeb y plant.

Mae'r system o rannu dyletswyddau wedi'i hen sefydlu, sy'n golygu bod staff yn cydweithio'n effeithiol ac yn rhannu gwybodaeth am blant yn rheolaidd.  Ceir cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a rhai a gyfarwyddir gan oedolion.  Mae gan y plant rhyddid i ddewis rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion neu weithio'n annibynnol.

Mae’r staff yn modelu’r Gymraeg yn dda ac yn defnyddio cwestiynu’n effeithiol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu’r plant.  Mae staff yn annog y plant yn llwyddiannus i werthuso’u gwaith wrth iddynt drafod stori, llanw bwcedi a photiau gyda thywod, hela swigod, addurno conau pinwydd gyda glud a gliter a chreu colâg wrth ddefnyddio gwahanol siapiau.  Mae’r staff yn darparu amgylchedd diddorol, sy'n sicrhau bod yr holl blant yn cymryd rhan ac yn mwynhau eu hunain.  Maent yn bositif iawn wrth i blant gyrraedd ac maent yn parhau gyda’r brwdfrydedd hwn drwy gydol y sesiynau.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau'r plant yn cael eu cwblhau'n effeithiol ac yn effeithlon.  Mae’r asesiadau dyddiol yn arwain, yn fanwl, yn uniongyrchol at dargedau plant unigol.  Mae hon yn broses gadarnhaol, wedi ei rheoli'n dda a’n ddiwyd.  Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda iawn am gyflawniadau eu plant.  Mae’r gwybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw adeg.

## Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da

Mae'r lleoliad yn sicrhau bod iechyd a lles y plant yn dda.  Mae'n cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant.  Mae’r staff yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn synhwyrol.  Mae plant yn cael cyfleoedd da i fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo.  Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu troi yn gwrtais wrth fwyta ffrwythau a thost a chael diod o lefrith neu ddŵr o amgylch y bwrdd bwyd.  Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae cyfleoedd da ar gael ar y safle i blant ailgylchu bwyd, papur a photeli plastig.  Mae hyn yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.  Mae'r lleoliad yn tyfu blodau a llysiau mewn potiau yn yr ardal allanol.  Mae'r arfer hwn yn ddigonol ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae ardal dyfu’n cael ei ddatblygu’n y parc gerllaw, sy'n cael ei reoli gan gymdeithas sy'n gysylltiedig â'r ysgol.  O ganlyniad, mae’r plant yn dechrau dysgu am sut mae planhigion yn tyfu a sut i ofalu am yr amgylchedd.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn dda, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol.  Mae gan y staff cymwysterau addas a phrofiad da ac mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol.  Mae arbenigedd staff yn cael ei ddefnyddio'n dda wrth gynllunio, addysgu a goruchwylio gweithgareddau.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.  Mae'r lleoliad yn ddiogel, mae'r drysau ar glo a dim ond aelod o staff sy’n eu hagor.  Ni all unrhyw un ddod mewn a ni all unrhyw blentyn adael heb gwmni.  Mae'r staff yn ofalus wrth i blant cael eu casglu.  Mae'r oedolion yn dod mewn i'r adeilad ac mae'r staff yn sicrhau bod y plant o dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd cyn i unrhyw un adael.

Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau bod unigolion sy'n cael eu hamau o fod ag angen o gymorth ychwanegol yn cael eu nodi.  Mae’r staff yn trafod y rhain gydag asiantaethau priodol.  Yr arweinydd yw’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol.  Mae hi'n gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant sydd ag anghenion arbennig.

## Yr amgylchedd dysgu:  Da

Trwy'r gweithgareddau dyddiol a’r agwedd sy'n cael ei fabwysiadu gan y staff, mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos positif.  Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod.  Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol, sydd wedi'i strwythuro'n dda.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau yn llwyddiannus yn yr adeilad ac yn yr awyr agored i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant.  Anogir y plant i symud yn rhydd o gwmpas y neuadd a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr holl feysydd dysgu.  Mae’r adnoddau’n hygyrch i blant, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o gyfrifoldeb yn dda.  Caiff adnoddau eu rhannu'n effeithiol rhwng gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu.

Mae'r ardal allanol wedi ei drefnu'n dda mewn ardal gyfyng iawn. Mae’r staff yn defnyddio'r adnoddau yn gall ac yn gwneud y defnydd gorau o'r lle sydd ar gael. Mae'r defnydd o iard yr ysgol ar gyfer gweithgareddau brochus, fel gyrru beiciau, yn effeithiol. Er bod potiau ar gael, nid yw'r cyfleoedd i blant dyfu planhigion yn ysgogol, fodd bynnag mae ardal dyfu yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yn ymyl y lleoliad.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae staff yn deall eu rolau’n llawn ac yn cydweithio'n dda fel tîm. Maent yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin yn synhwyrol. Mae'r arfer hwn yn sicrhau'r defnydd gorau o'u harbenigedd. Mae'r arweinydd, staff a’r pwyllgor rheoli’n cynllunio’n bwrpasol er mwyn darparu profiadau diddorol i'r plant.

Mae'r cynllun gwella yn ddogfen ddefnyddiol. Mae blaenoriaethau clir ar gyfer gwella yn cael eu nodi drwy weithdrefnau hunan arfarnu cadarn. Mae prosesau da ar waith i sicrhau bod adnoddau ar gael i gwrdd â’r amcanion gwella. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol sy'n cynnwys ymweliadau i arsylwi arfer da mewn lleoliadau eraill. Mae hyn yn cael effaith dda ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r pwyllgor rheoli yn arwain ac yn monitro’n effeithiol. Mae'n rhoi ystyriaeth dda i ddeddfwriaeth ac mae ei systemau rheoli’n cwrdd â gofynion. Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, fel gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a'r fframwaith ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinwyr a'r staff yn adnabod y lleoliad yn dda. Maent yn gwybod yr hyn y maent yn ei wneud yn llwyddiannus a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r lleoliad yn hunan arfarnu’n dda. Mae'n sicrhau cysylltiadau effeithiol rhwng yr hunan arfarnu a thargedau'r cynllun gwella.

Mae targedau priodol yn cynnwys gwella medrau rhif a gwybodaeth y plant o siapiau, gwella medrau TGCh y plant a rolau’r pwyllgor rheoli. Mae'r lleoliad yn gwerthuso meysydd i'w gwella yn effeithiol yn erbyn cyfrifoldebau ac amserlenni yn y cynllun gwella. Mae tystiolaeth gadarn o werthusiadau defnyddiol gan bawb sydd â chysylltiad â'r lleoliad, fel rhieni ac asiantaethau allanol, sydd o fudd i ddatblygiad y lleoliad.

Mae'r staff yn awyddus i dderbyn syniadau newydd ac i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio, a awgrymwyd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Er enghraifft, mae argymhellion yr awdurdod lleol ar sut i wella'r gwaith o gynllunio llythrennedd a rhifedd, wedi effeithio ar ansawdd y profiadau dysgu a’r addysgu’n dda. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae rhieni a gofalwyr, yn yr atebion i'r holiaduron ac mewn trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â'r lleoliad. Maent yn gwerthfawrogi safonau'r gofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd i gyfarfod â staff yn ddyddiol.

Erbyn i'r plant adael y lleoliad, mae’r rhieni’n teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae cysylltiadau gyda'r ysgol wedi'u sefydlu'n dda iawn ac mae'r lleoliad yn cymryd rhan ym mywyd bob dydd yr ysgol, wrth ddefnyddio iard yr ysgol a'r parc cyfagos ar gyfer gweithgareddau brochus a theithiau natur i gasglu conau pinwydd. Mae staff o'r ysgol hefyd yn ymweld â'r lleoliad yn wythnosol i ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadurol gyda'r plant ac i ddarllen ac actio storïau ganddynt. Mae pennaeth yr ysgol yn gefnogol iawn o'r lleoliad, sy'n mwyhau'r berthynas gadarnhaol rhwng staff y lleoliad â'r ysgol.

Mae’r gefnogaeth a ddarperir gan y Mudiad Meithrin yn elwa’r lleoliad yn dda. Mae'r cydweithrediad parod rhwng y lleoliad a'r awdurdod lleol yn fuddiol i ddatblygiad y lleoliad. Mae'r cyngor a'r awgrymiadau’n helpu symud y lleoliad ymlaen ac yn cyfrannu at ddarpariaeth bwrpasol ac arweinyddiaeth effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn heriol ac mae'n anelu’n gyson i wella pob agwedd o waith y lleoliad. Mae’n rheoli’r adnoddau’n synhwyrol i gefnogi dysgu a gwelliannau yn y lleoliad. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli’n sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff sydd â chymwysterau a hyfforddiant priodol.

Defnyddir staff yn effeithiol i gyflwyno cwricwlwm eang a diddorol, sy'n cefnogi cyflawniadau'r plant yn llwyddiannus. Mae'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithlon a’n ddiwyd. Maent yn sefydlu meysydd dysgu ysgogol ar gyfer y plant yn ddyddiol. Mae'r adnoddau, sy'n cynnwys offer TGCh effeithiol, o ansawdd da ac yn hygyrch i'r plant.

Yn sgil y ddarpariaeth effeithiol, y staff diwyd, y pwyllgor rheoli cefnogol a’r arweinyddiaeth bwrpasol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |